

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

8fed Ionawr 2019

Presennol: Alwyn E Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Lindsey Ellis-Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Rhodri Jones, (Is-gadeirydd), Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd)

Cyhoedd: Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1946 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

1947 Buddiant: Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1948 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4/12/18

1949 Materion y Clerc : Atgoffwyd aelodau o'u hawl i siarad neu gyflwyno gwybodaeth ar fater ar yr agenda mewn achos lle mae buddiant, cyn iddynt ymadael â'r cyfarfod.

1950 Cyngor Gwynedd: Nid oedd Adroddiad y tro hwn.

1951 Triathlon: Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr i'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd; adroddwyd nad oedd y Trefnwyr yn ystyried trefnu ar gyfer un diwrnod yn unig, ond yn parhau gyda threfniadau dros penwythnos. Cytunwyd nad oedd newid ym marn y Cyngor ers cyfarfod Rhagfyr a chytunwyd i ysgrifennu i fynegi nad ydyw'r Cyngor yn gallu rhoi cefnogaeth i gau'r A494 am oriau sylweddol ar ddau ddiwrnod yn ystod penwythnos olaf mis Mehefin; ymhellach nid oedd digon o fanylion am fesurau rheoli trafniadaeth trwy Langywer i argyhoeddi'r aelodau y byddent yn effeithiol.

Ymgynghoriad brys ar 15/1/19 yn dilyn Cyfarfod brys rhwng y Trefnwyr a SAG Gwynedd, yn rhoi manylion a gwybodaeth newydd am fesurau lliniaru traffig arfaethedig:

Cytunwyd yn unfrydol i roi'r Rheolau Sefydlog o'r neilltu ac i roi ystyriaeth eto i fater cefnogaeth i'r Triathlon yn 2019.

Mynegodd y Cynghorwyr eu diolch i'r Trefnwyr a swyddogion Gwynedd am ymateb i bryderon Cyngor Llanuwchllyn am ddiffyg manylion i reoli traffig. Diolchwyd hefyd i swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri am eu cyd-weithrediad.

Cytunwyd i gefnogi Triathlon 2019 yng ngoleuni'r trefniadau newydd a'r sicrwydd a roddwyd y byddai'r trefniadau newydd yn galluogi trigolion Llanuwchllyn i deithio heb dramgwydd ar hyd ffordd Llangywer yn ystod y digwyddiad.

Cytunwyd i ofyn am arfarniad trylwyr ym mis Medi o'r digwyddiad.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Cytunwyd i gynegi byddai cefnogaeth i ddigwyddiadau yn y dyfodol yn amodol ar farn trigolion o lwyddiant y mesurau rheoli traffig yn 2019.

1952 Noson Goffi – gwiriwyd y trefniadau. Bydd y Noson Goffi yn cael ei cynnal ar 13/2/19 a Sion Llewelyn fydd y gŵr gwadd. Cytunwyd i ofyn i aelodau Merched y Wawr a Sefydliad y Merched am eu cymorth arferol gyda'r lluniaeth.

1953 Materion Eiddo'r Cyngor: Derbyniwyd Adroddiad Karl Jones yn mynegi bod eu cyflwr yn foddhaol. Diolchwyd iddo ac i Gwion Alwyn am osod y goeden Nadolig hardd yn ddiogel yn ei lle. Awgrymwyd archebu arwydd "Nadolig Llawen – Cyngor Cymuned Llanuwchllyn" ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cyflwynwyd gwybodaeth i gynrychiolwyr Partneriaeth Penllyn am grant bach i gynnal toiledau'r pentref.

Dywedodd Karl Jones ei fod wedi llwyddo i gael adeiladwr i roi pris am uwchraddio'r toiledau yn y pentref.

Cytunodd y Clerc i holi a ydyw Cyngor Gwynedd yn codi pris am lenwi bin halen os ydyw eisoes yn llawn halen ers y llynedd.

1954 Materion Ariannol

- i. Ystyriwyd a chymeradwywyd adroddiad yr Is-bwyllgor cyllid 10/12/18 a diolchwyd i'r aelodau a'r swyddogion am eu gwaith.
- ii. Ystyriwyd a chymeradwywyd Cyllideb 2019-20
- iii. Cytunwyd i osod Praesept 2019-20 ar yr un lefel a llynedd.
- iv. Cyfraniadau Cymunedol – atgoffwyd pawb sy'n dymuno gwneud cais i gynnwys mantolen; y dyddiad cau yw 5/2/18.

1955 Materion lleol: nid oedd materion gan aelodau'r Cyngor Cymuned.

1956 Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr, Huw Antur a Alwyn E Jones; dywedwyd fod Canolfan Henblas wedi bod yn brysur iawn yn ystod y Noson Siopa Hwyr.

1957 Gohebiaeth: Ystyried gohebiaeth

- i. Effaith cau canolfannau iaith Gwynedd – cytunwyd i gefnogi llythyr Cylch yr iaith ac ychwanegu bod cario plant ymhellach mewn tacsis yn ychwanegu at gostau.
- ii. Cais Cynllunio NP5/71/AD38A Gosod 5 Panel Gwybodaeth, Caer Gai CYMERADWYWYD
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am apêl yn erbyn gorchymyn gorfodaeth, a chytunwyd i anfon cefnogaeth y Cyngor i fesurau Parc Cenedlaethol Eryri.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
Cadeirydd: Alwyn E Jones

- iv. Ymgynghoriad Polisi Gosod Tai – anogwyd yr aelodau i gwblhau'r ymgynghoriad ar y we.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 5/2/19 yn y Neuadd Bentref